# SL(6)598 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

## Cefndir a Diben

Gosodwyd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (y Rheoliadau Diwygio 2024) yn y Senedd ar 22 Tachwedd 2024. Yn ei adroddiad ar y Rheoliadau Diwygio 2024, nododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sawl pwynt technegol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diwygio 2024 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i fynd i'r afael â phwyntiau adrodd technegol a godwyd yn flaenorol.

Roedd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) (Diwygio) 2024 wedi mynd i'r afael yn flaenorol â gwall yn ymwneud â dyddiad dod i rym darpariaethau penodol yn Rheoliadau Diwygio 2024.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(2)(b), mae'r diffiniad o "gwasanaeth TPE" wedi ei hepgor o reoliad 2(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Erys cyfeiriadau, fodd bynnag, at "gwasanaeth TPE" ym mharagraff 7(2)(b)(ii) o Atodlen 5 a pharagraffau 4(2)(b), 6(2)(b) a 7(3)(c) o Atodlen 6 i Reoliadau 2020. Felly, ni fydd unrhyw ystyr i'r term hwnnw mwyach ar ôl hepgor y diffiniad. Mae rhai o'r cyfeiriadau presennol eraill at "gwasanaeth TPE" yn Rheoliadau 2020 wedi'u diwygio i ddatgan "presgripsiynau electronig" gan y Rheoliadau hyn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2(3)(a) a (b)(i) mae'r testun Cymraeg yn diwygio paragraff 5A o Atodlen 5 i Reoliadau 2020, i ddatgan "cyfarpar **offthalmig rhestredig**" a "meddyginiaeth **offthalmig restredig**". Ond y diffiniadau a geir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2020 (fel y'u diwygiwyd gan reoliad 2(2) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024)) yw "cyfarpar **rhestredig offthalmig**" a "meddyginiaeth **restredig offthalmig**". Mae'r un gwall hefyd yn digwydd yn nhestun Cymraeg y diwygiadau a wneir gan reoliad 3(3)(a) o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i wallau a nodir yn adroddiad y Pwyllgor hwn ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024, a'r eglurhad sy'n ofynnol gan yr adroddiad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddau bwynt adrodd technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.